| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Awdurdod Dirprwyedig - Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau - Gwyneth Ellis |
| **Dyddiad yr Adroddiad** | Ebrill 2022 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Steve Gadd / David Lorey |
| **Awdur yr adroddiad** | Sarah Wainwright |
| **Teitl** | Caffael Contract Arolygu a Dadansoddi Asbestos |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i Gyngor Sir Ddinbych ddechrau proses gaffael a llunio contract gwaith gyda Chontractwr Arolygu a Dadansoddi Asbestos. Hefyd, ceisir cymeradwyaeth i gaffael contract i'r contractwyr a nodwyd am gyfnod o 12 mis gyda chyfle i'w ymestyn am gyfnodau o 12 mis hyd at 10 mlynedd yn amodol ar berfformiad.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Lluniwyd yr adroddiad hwn er mwyn ceisio cymeradwyaeth i gwblhau'r broses gaffael ar gyfer y contract yn ôl y gofyn hwn.

2.2. Mae gan y Cyngor gytundeb cyfredol gyda North Star Environmental, yn dilyn ymarfer caffael a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2018. Fodd bynnag, mae'r tîm wedi penderfynu y byddai dull hyblyg a mwy syml yn ffafriol. Yn dilyn ymgynghoriad â'r timau Cyfreithiol a Chaffael, teimlwyd y byddai Contract yn ôl y Gofyn yn hwyluso perthynas weithio well rhwng partneriaid a chaniatáu ar gyfer gwasanaeth mwy pwrpasol.

2.3. Bydd y cytundeb fframwaith cyfredol rhwng Cyngor Sir Ddinbych a North Star Environmental yn dod i ben ar 11 Tachwedd 2022. Byddwn yn dilyn y weithdrefn ddyfynbrisiau safonol yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Contract pe na bai modd cwblhau'r broses gaffael cyn i'r fframwaith ddod i ben.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelod Arweiniol ar gyfer Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yn:

3.2. Cymeradwyo dechrau'r ymarfer caffael ar gyfer y contract Arolygu a Dadansoddi Asbestos a;

3.3. chadarnhau ei bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i hystyriaethau cyn gwneud y penderfyniad.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r Tîm Asbestos yn rheoli a chydlynu gwaith gwaredu asbestos o eiddo'r cyngor. Rydym yn cydlynu gwaith gwaredu mewn eiddo gwag domestig ac rydym yn gwneud gwaith gwaredu asbestos fel rhan o gynlluniau cynnal a chadw ehangach a gynlluniwyd.

4.2. Er mwyn hwyluso'r gwaith hwn, mae angen cynnal arolygiadau er mwyn nodi lleoliad y Deunydd sy'n Cynnwys Asbestos ac asesu eu cyflwr. Yn yr un modd, mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gael Dadansoddwr Asbestos ar y safle i waredu Deunydd sy'n Cynnwys Asbestos trwyddedig i sicrhau bod corff annibynnol yn archwilio'r broses waredu ac yn gwirio bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau'n ddiogel ac yn unol â rheoliadau.

4.3. Ymunodd y Cyngor â fframwaith cydweithredol yn 2018 gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint ac o ganlyniad mae ganddynt gytundeb cyfredol gyda North Star Environmental. Fodd bynnag, mae'r tîm wedi penderfynu y byddai dull hyblyg a mwy syml yn ffafriol. Yn dilyn ymgynghoriad â'r timau Cyfreithiol a Chaffael, teimlwyd y byddai Contract gwaith yn hwyluso perthynas weithio well rhwng partneriaid a chaniatáu ar gyfer gwasanaeth mwy pwrpasol. Byddai contract gwaith yn golygu cytundeb gydag un contractwr, gyda chyfraddau sefydlog, gan sicrhau gwerth am arian a gwasanaeth wedi'i deilwra fwy i ddiwallu anghenion Sir Ddinbych. Gellid dyfarnu'r holl waith sy'n werth llai na £25,000 yn uniongyrchol i'r contractwr llwyddiannus.

4.4. Bydd y cytundeb fframwaith cyfredol rhwng Cyngor Sir Ddinbych a North Star Environmental yn dod i ben ar 11 Tachwedd 2022. Rydym yn ceisio cymeradwyaeth i gaffael y contract newydd hwn. Mae'r broses dendro'n seiliedig ar 60% pris a 40% ansawdd, er mwyn i ni gael sicrhau ansawdd yn ogystal â gwerth am arian.

4.5. Caiff y contract gwaith newydd ei lunio am 12 mis i ddechrau, gyda'r cyfle i'w ymestyn bob blwyddyn hyd at uchafswm o 10 mlynedd. Bydd y prisiau'n sefydlog am 3 blynedd.

Yn dilyn cymeradwyaeth, byddwn yn gweithio gyda'r tîm cyfreithiol i gwblhau'r ymarfer caffael mewn digon o bryd i ddyrannu'r contract cyn i'r fframwaith cyfredol ddod i ben.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd y penderfyniad i gymeradwyo caffael y contract hwn yn cyfrannu at y blaenoriaethau corfforaethol trwy ddarparu cartrefi ac ystâd gorfforaethol sy'n diwallu anghenion y cymunedau a'r preswylwyr sy'n byw yn yr eiddo hynny a'u defnyddio.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Amcangyfrifir mai gwerth y contract yw tua £170,000 y flwyddyn ac mae'n cynnwys rhaglen fuddsoddi a ariennir gan gyfalaf o tua £120,000 y flwyddyn. Bydd gweddill y gwariant (£50,000) trwy'r tîm Tai, ar gyfer arolygu a dadansoddi asbestos mewn eiddo gwag a darparu gwasanaeth samplu ymatebol ar gyfer tai. Gan mai'r uchafswm estyniadau yw hyd at 10 mlynedd, cyfanswm gwerth y contract dros yr hyd llawn yw hyd at £1.7miliwn o bosibl.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Ni chynhaliwyd asesiad o effaith ar les ar gyfer dyrannu'r contract ond cyn ymgymryd â'r broses gaffael. Prif gasgliad yr Asesiad o'r Effaith ar Les oedd y byddai'r contract newydd yn cynnig cyfraniad cadarnhaol. Byddai'r contract yn cynnig sicrwydd ariannol a helpu'r cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth eiddo o ran rheoli Asbestos ar draws y portffolio eiddo. Byddai'r gwerth am arian hwn yn golygu bod modd cyfeirio adnoddau'r cyngor at le mae eu hangen fwyaf. Fel rhan o'r contract, rydym wedi sicrhau y bydd gennym ofyniad mantais gymunedol cynhwysfawr, a fydd yn golygu y bydd rhaid i gontractwyr roi yn ôl i'r cymunedau maen nhw'n gweithio ynddynt. Mae'r broses sy'n cael ei chyflawni yn gyfrifol yn fyd-eang ac mae'n unol â rheolau caffael yr UE ac mae'n dilyn arfer gorau'r diwydiant ac egwyddorion diogelwch.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid oes gofyniad i ymgynghori â Chraffu nac unrhyw gorff na Gwasanaeth arall. Fodd bynnag, bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda phob aelod fel hysbysiad cyn penderfynu am oddeutu 7 niwrnod cyn cadarnhau'r penderfyniad.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r cynigion yn yr adroddiad yn cefnogi anghenion busnes y Cyngor ac fe ymddengys eu bod yn darparu gwerth am arian, ac felly cânt eu cefnogi. Mae'r gwaith a wneir yn rhan o raglen waith angenrheidiol wedi'i chynllunio a gaiff ei hariannu o adnoddau presennol o fewn rhaglen gyfalaf flynyddol y Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Y risgiau posibl os byddwn yn methu â chaffael y contract hwn yw y bydd y fframwaith cyfredol yn dod i ben a bydd yr awdurdod yn dychwelyd i'r sefyllfa cyn y cytundeb fframwaith, lle byddai angen hysbysebu pob darn o waith i bob contractwr asbestos â diddordeb a byddai'n rhaid cynnal ymarfer dyfynbrisiau. Yn dilyn tendr llwyddiannus, rhaid llunio math o gontract, cyn y gall y gwaith gwaredu ddechrau. Mae'r broses hon ar gyfer gwaith yn aneffeithlon iawn a bydd yn arwain at oedi sylweddol.

10.2. Yn ogystal â hynny, mae'r contract hwn yn cynnwys rhestr gyfraddau. Mae rhestrau cyfraddau yn cynnig arbedion maint a sicrhau gwerth am arian a rhagweladwyedd.

10.3. Bydd cymeradwyaeth i gaffael contract newydd yn negyddu'r risgiau hyn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae gofyn i'r broses ar gyfer dirprwyo awdurdod awdurdodi dechrau'r weithdrefn gaffael yn unol ag adran 2.7.2 iii Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor.

11.2. Pŵer wedi'i ddirprwyo i'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol fel y nodir yn Atodiad 2(b) Adran 13 Cynllun Dirprwyo Aelodau yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

11.3. Mae gan y Cyngor hefyd bwerau i fynd i gontractau yn unol ag adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i ymgymryd ag unrhyw weithred i hwyluso, neu sydd yn ffafriol neu ddamweiniol, cyflawniad ei swyddogaethau yn llawn); adran 135 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i wneud rheolau sefydlog i lywodraethu mynd i gontractau), adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (penodi gymaint o swyddogion ac sydd rhaid er mwyn cyflawni swyddogaethau'r awdurdod); adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 1999 (dyletswydd gyffredinol ar awdurdod gwerth gorau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran y ffordd mae ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni).